*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

C.Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor (07385401954)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **Is-bwyllgor Y CABINET AR FATERION YR HINSAWDD** yn cael ei gynnal ar **Dydd IAU, 23AIN MAWRTH, 2023** am **1.00 PM.**

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn Dydd Mawrth, 21 Mawrth 2023 trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

## AGENDA

**Tudalennau**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022 yn rhai cywir.

**5 – 10**

**3.** **CYNLLUN YMGYSYLLTU Â NEWID HINSAWDD RHONDDA CYNON TAF (2023-2025)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy’n amlinellu cynigion i gyfathrebu a chynnwys rhanddeiliaid yng ngwaith y Cyngor o ran cydweithio i fwrw ei darged o fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.

**11 - 36**

**4.** **Y STRATEGAETH DATGARBONEIDDIO GORFFORAETHOL A'R CYNLLUN GWEITHREDU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor, sy'n rhoi cyfle i'r Aelodau drafod adolygu a chymeradwyo Strategaeth Ddatgarboneiddio Gorfforaethol y Cyngor a rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith. Bydd y cynllun yn nodi amserlen glir er mwyn helpu'r Cyngor i fwrw'i darged o fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030.

**37 - 104**

**5.** **CYNHYRCHU TRYDAN DŴR YN RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor, sy'n rhoi trosolwg o adroddiad hyfywedd wedi'i ddiweddaru, a gwblhawyd gan gwmni arbenigol, ar gyfer datblygu cynlluniau pŵer trydan dŵr ar raddfa fach o fewn ffiniau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae’r adroddiad hanesyddol, eang, wedi bod yn destun adolygiad mewnol yn ddiweddar.

**105 - 132**

**6.** **FFERM SOLAR ARFAETHEDIG**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor, sy'n rhoi diweddariad pellach i'r Aelodau mewn perthynas â'r gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu 'Fferm Solar ar y Tir', i'w lleoli ar dir y Cyngor yng Nghoedeláі (hen safle glofa 'teras' 84-erw, ger Tonyrefail). Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fydd perchennog y cyfleuster yma

**133 - 138**

**7.** **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchreliad:-**

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd:**
(Y Cynghorydd C Leyshon ac Y Cynghorydd A Crimmings)

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**
Y Cynghorydd R Lewis, Y Cynghorydd  M Norris ac Y Cynghorydd J Barton